

**IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET
(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A
MICROSOFT TEAMS)**

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023

Cadeirydd: Cynghorydd P.Rogers

Is-gadeirydd: Cynghorydd C.Jordan

Cynghorwyr: R.G.Jones, A.J.Richards, C.Clement-Williams
a/ac H.C.Clarke

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** T.Davies, C.Furlow-Harris, B.Dennedy,
C.Griffiths, T.Rees, S.Thomas a/ac P.Chivers

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac
A.Llewelyn

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8 a 12 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023, 7 Mawrth 2023 a 18 Ebrill 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Y Swyddfa Gofrestru – Gwasanaeth y Gweinyddion

Canmolodd yr aelodau'r adroddiad gan ddweud bod y gwasanaeth wedi'i redeg yn dda ac yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer ehangu. Fodd bynnag, cwestiynodd yr aelodau gywirdeb yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Aseiad Effaith Integredig; roedd naratif eitemau 3, 4, 5, 7 a 10 ar dudalennau 15-19 yn datgan nad oedd unrhyw effaith ond roedd y matrices cyfatebol yn dangos effaith gadarnhaol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd y dylai'r matrices fod wedi dangos effaith niwtral. Mae'r Aseiad Effaith Integredig yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer aelodau, a bydd swyddogion yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw naratif a thestun yn cyfateb.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion yn y gwasanaeth Cofrestru am eu gwaith yn y blynyddoedd diweddar ar gynhyrchu incwm.

Holodd yr aelodau a oedd angen i swyddogion dderbyn hyfforddiant pellach ar Aseidiadau Effaith Integredig. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod rhaglen waith yn cael ei datblygu, a bod gwaith yn parhau o fewn y Tîm Polisi Corfforaethol i wreiddio'r hyfforddiant a'r egwyddorion.

Yn dilyn craffu, cafodd yr adroddiad gefnogaeth i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet

Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf yr Eglwys yng Nghymru Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad Blynyddol 2022 – 2023

Dygwyd sylw'r aelodau gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd at wybodaeth sydd ar goll o'r tabl ceisiadau cymeradwy ar dudalen 31 o'r pecyn agenda

Dylai'r cyfeiriad at y Fywoliaeth Reithorol ddatgan Bywoliaeth Reithorol Eglwys y Santes Fair Aberafan a dylai'r cyfeiriad at Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Sardis ddarllen Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Resolfen.

Holodd yr Aelodau ynghylch y tabl ar dudalen 25 o'r pecyn agenda nad oedd yn cynnwys ffigurau'n ymwneud ag ail-werthuso, a gofynnodd yr aelodau fod hyn yn cael ei ychwanegu at y bwrdd er eglurder.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y byddai'r cais hwn yn cael ei anfon ymlaen at y Prif Swyddog Cyllid ac yr adroddir am unrhyw ailwerthusiadau yn y dyfodol.

Holodd yr Aelodau ynghylch cynnwys cais o 2004/2005 yn y tabl ar dudalen 31 a holwyd a ddylid ei gynnwys oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio. Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd y sefydliad yn dal i fod yn weithredol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod yr arian ar gael o hyd ond nad yw'r sefydliad wedi codi unrhyw arian ac felly mae'r cais yn parhau i fod ar gofnod. Os yw'r sefydliad yn dymuno hawlio'r arian, efallai y bydd angen diwydrwydd dyladwy ychwanegol oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio. Nid yw'r sefydliad wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar; unwaith yr eir i'r afael â hyn, gellir tynnu'r arian o'r system os nad yw'r sefydliad bellach yn bodoli. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon ar y sefyllfa cyn belled ag yr ymgwymerir â diwydrwydd dyladwy.

Holodd yr Aelodau ynghylch y tabl ar dudalen 25 o'r pecyn adroddiad gan ddweud nad oedd y crynodeb yn dangos yn glir fod incwm yn deillio o fuddsoddiad. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd y bydd y naratif hwn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn dilyn craffu, cafodd yr adroddiad gefnogaeth i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet

Y diweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghastell-nedd Port Talbot

Dywedodd y Swyddog fod y gwaith a amlinellir yn yr adroddiad yn cael ei gefnogi gan Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog, (AFLO) a bod y swydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Er mai Castell-nedd Port Talbot yw'r sefydliad sy'n lletya, mae'r swydd ranbarthol hefyd yn darparu cefnogaeth i gynghorau Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn ddiweddar mae'r AFLO wedi sicrhau swydd yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a'r gobaith yw y bydd swyddog newydd yn cael ei benodi erbyn dechrau mis Medi.

Roedd yr aelodau'n cefnogi'r gwaith yn llawn ond gofynnwyd a oedd amserlen ar gyfer digwyddiadau i ddod. Cadarnhaodd y swyddog fod Cyngerdd Gŵyl y Lluoedd Arfog wedi'i threfnu ar gyfer 27 Hydref ac y bwriedir cynnal digwyddiad codi'r faner ar 28 Hydref. Dywedodd yr

Aelodau y byddai wedi bod yn dda pe bai'r adroddiad wedi adlewyrchu bod y gwaith yn mynd rhagddo a nodwyd hyn yn briodol. Yn dilyn craffu, nodwyd yr adroddiad.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2023/24.

6. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau bryd.

CADEIRYDD